



## Ysgol Pentreuchaf

### 70. Datganiad y Corff Llywodraethol ar Ddisgyblaeth

#### Nôd Ysgol Pentreuchaf yw

Creu ysgol hapus lle mae pawb (yn blant ac oedolion) yn gwneud eu gorau bob amser, yn frwdfrydig, yn gofalu am ei gilydd ac yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle a phrofiad i ddysgu ac i gyfoethogi eu bywydau.

#### Ethos yr Ysgol

1. Creu awyrgylch hapus a gweithgar wedi ei sefydlu ar barch rhwng athrawon a'i gilydd, athrawon a phlant a phlant a'i gilydd, ac a phawb sy'n rhan o'r ysgol, yn ddyddiol neu'n achlysurol.
2. Ceisiwn greu amgylchedd diddorol a symbylus a pherthynas gyfeillgar a diogel rhwng y staff a'r plant.
3. Creu sefyllfa lle y gall pob plentyn ddatblygu ac aeddfedu i ddod yn aelod moesgar, cyfrifol, hyderus o gymdeithas.
4. Darparu cyfle llawn i blant ddatblygu eu doniau, eu talentau a'u diddordebau, i ddod i adnabod eu hunain ac i ddeall rhywbeth am eu gwendidau a'u cryfderau.
5. Creu yn yr ysgol amgylchedd fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydferth.
6. Sicrhau bod plant yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu ar eu cyfer gwricwlwm sy'n berthnasol, yn wahaniaethol, yn eang a chytbwys.

**Cefnogwn y syniad o blant yn ymwybodol o'n cred 'dwi ddim yn hoffi dy ymddygiad, ond yn parhau i dy hoffi / gefnogi di'.**

#### Côd Moesol yr Ysgol

Bydd yr oedolion sydd yn yr ysgol yn cynnig patrymau ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn cydfynd ag amcanion yr ysgol. Bydd y plant yn cael cymryd rhan mewn trafodaethau fydd o gymorth iddynt ddod i wybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

#### Rheolau Ymddygiad Cadarnhaol ac Adeiladol

1. Disgwylir i'r plant fod yn gwrtais a dangos parch at blant eraill a'r oedolion sydd yn yr ysgol. Byddant yn negydu rheolau gyda'r pennaeth yn flynyddol.
2. Annogir y plant i fod yn hunan ddisgybledig a byddwn yn ceisio meithrin hunan barch a hunan hyder ynddynt.
3. Byddant hefyd yn trafod y Cytundeb Cartref Ysgol a'r syniadau sydd ynghlwm ynddo cyn ei arwyddo.
4. Byddwn yn ceisio datblygu yn y plant falchder at eu bro a'u gwlad a dealltwriaeth o'r byd y maent yn byw ynddo a pharch tuag ato – yn gyffredinol ac yn arbennig yng nghyd-destun eu bro a'u hamgylchedd, ond heb anghofio gwledydd a chymdeithasau eraill.

#### Gwobrau a Chosbau Teg a Chyson

1. Byddwn yn gwobrwyo disgyblion gan roi pwyntiau i'w llysoedd – Carnguwch, Penprys a Mela. Mae hyn yn creu ymdeimlad o gyfrannu at y tim a nid ar gyfer diben hunanol.
2. Byddwn yn canmol plant sydd yn dangos ymddygiad da ac yn eu defnyddio fel esiampl dda
3. Dylai unrhyw gosb fod yn rhesymol ac yn addas i'r 'drosedd' e.e. plentyn sy'n gas hefo plant eraill ar amser chwarae yn colli amser chwarae, plentyn sy'n gwrthio o flaen plant eraill i fod yn olaf a.y.y.b.
4. Os yn bosibl (yn ôl oedran a'r math o ymddygiad), dylid negydu'r gosb gyda'r plentyn neu gyda'r plentyn a'r plant y mae wedi tarfu arnynt.
5. Mae'n bwysig fod y plant yn gwybod fod disgwyl iddynt ymddwyn yn briodol, pa le y mae'r 'llinell', ac y byddant yn cael eu cosbi yn y pen draw os bydd angen.

#### Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_